



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

---

TEITL	Rheoliadau Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019
DYDDIAD	29 Gorffennaf 2019
GAN	Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

### Rheoliadau Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019

#### Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

##### Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwys

- Diwygio Rheoliad y Cyngor (EC) 1255/97 ynglŷn â meini prawf y Gymuned ar gyfer safleoedd rheoli a diwygio cynllun y daith fel y cyfeirir ato yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb 91/628/EEC.
- Diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchod ac ynghylch labelu cynhyrchion eidion a chig eidion.
- Rheoliad (EC) Rhif 999/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu rheolau ar gyfer atal, rheoli a dileu rhai enseffalopathïau sbyngffurf trosglwyddadwy.
- Diwygio Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 21/2004 yn sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid o deulu'r ddafad a geifr.
- Diwygio Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu cludo ac yn ystod gweithrediadau cysylltiedig.
- Diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1007/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch masnach ym maes morloi. **(Wedi'i gadw yn ôl)**
- Diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu rheolau iechyd o ran sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid nad ydynt i'w bwyta gan bobl.
- Diwygio Rheoliad y Cyngor (EC) 1099/2009 ar ddiogelu anifeiliaid adeg eu lladd.
- Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor yn gosod rheolau iechyd ynghylch sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid nad ydynt i'w bwyta gan bobl a gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC ynghylch rhai samplau ac eitemau sydd wedi'u heithrio o archwiliadau milfeddygol ar y ffin o dan y Gyfarwyddeb honno.

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae iechyd a lles anifeiliaid yn feysydd sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae darpariaeth yn yr OS hwn sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau o ran Cymru yn ddilyffethair ac i Weinidogion Cymru roi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol arfer swyddogaethau o ran Cymru. Byddai swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w harfer ochr yn ochr â chydsyniad Gweinidogion Cymru yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, fod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

### **Diben y diwygiadau**

Mae'r OS hwn, sy'n dilyn y weithdrefn gadarnhaol, yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw i weithredu'n effeithiol a hefyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r UE.

Mae Rheoliadau 2019 yn gwneud yr addasiadau sydd eu hangen er mwyn parhau i gymhwyso'r rheolau presennol a nodir mewn cyfraith ar ôl i'r DU Ymadael â'r UE.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: <https://beta.parliament.uk/work-packages/w7670fvZ>

### **Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.